

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

**Grangetown: Ysgol Gynradd Parc Ninian: Parth Diogelwch Ysgol: Sloper Road a Virgil Street**

**Adroddiad Ymgynghori**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 23 Awst 2019 a 19 Medi 2019. Cafwyd 5 ateb unigol, gan gynnwys ateb gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Parc Ninian. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi'u crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

**Argymhelliad**

**O ystyried yr adroddiad isod, cynigir bwrw ymlaen â'r cynllun.**

**Problem 1 - Lleoliad arafu traffig**

*Cododd preswlydd bryderon mewn perthynas â lleoliad y nodwedd arafu traffig ar Virgil Street, a allai effeithio ar fynediad yn y dyfodol i'w heiddo a'u gallu i adeiladu man croesi cerbydau.*

**Ymateb**

Mae'r lleoliad hwn wedi'i adolygu yn dilyn y pryderon a godwyd gan y preswlydd. Mae cyfyngiad cyflymdra 20mya wedi'i gyflwyno sy'n effeithiol o ran lleihau cyflymderau cerbydau ar y ffordd ddynesu i'r ysgol. Cytunwyd cadw'r nodweddion arafu traffig presennol (clustogau arafu) yn eu safle presennol, ac i beidio â newid y rhain i fwrdd arafu lled llawn fel y nodir ar y cynllun ymgynghori. Bydd yr arwyddion Parth Diogelwch Ysgol nawr wedi eu lleoli ar y droedffordd, bydd hyn yn sicrhau bod digon o le i'r preswlydd adeiladu Man Croesi cerbydau yn y dyfodol, yn unol â'r broses ymgeisio gyffredinol - mae manylion ar wefan y Cyngor.

**Problem 2 - Cais am gyfyngiadau parcio**

*Cododd nifer o breswylwyr bryderon mewn perthynas â phroblemau parcio gan rieni a dreifs yn cael eu blocio. Gwnaed ceisiadau am gyfyngiadau ychwanegol wrth y fynedfa i Erddi'r Ddinas, a gorfodi'r cyfyngiadau presennol. Codwyd pryderon hefyd am y llefydd parcio a gollir o bosibl.*

**Ymateb**

Bydd llefydd parcio a llwytho ychwanegol yn byddant yn cael eu cyflwyno yn dilyn gweithredu'r cynllun hwn. Bydd y rhain yn amodol ar broses Gorchymyn Rheoli Traffig ar wahân. Byddwn hefyd yn trefnu i Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor gynnal mwy o ymweliadau â'r lleoliad hwn.

Os bydd gyrwyr yn blocio dreifs neu'n methu â chydymffurfio â chyfyngiadau parcio mae hwn yn fater y gall Swyddogion Gorfodi Sifil ddelio ag ef, a dylid rhoi gwybod am unrhyw ddiwyddiadau i 029 2087 2088 gan ofyn am yr adran orfodi.

Mae Ysgol Gynradd Parc Ninian wedi ymgysylltu â thîm Teithio Llesol y Cyngor ac wrthi'n datblygu Cynllun Teithio Llesol i ymdrin â materion mewn perthynas â sut mae eu staff a disgyblion yn teithio i'r ysgol, gyda'r pwyslais ar annog cerdded, sgwtio a beicio er mwyn lleihau nifer y siwrneiau car i'r ysgol.

### Problem 3 - Cyflwyno camera cyflymder

*Gofynnodd disgyblion o Ysgol Gynradd Parc Ninian i gamera cyflymder gael ei osod.*

#### Ymateb

Mae camerâu cyflymder yn cael eu gweithredu gan GoSafe, a gallant ond gael eu gosod os yw'r lleoliad yn bodloni'r meini prawf a osodir gan Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar nifer a difrifoldeb y gwrthdrawiadau. Rydym wedi gwirio cronfa ddata gwrthdrawiadau a achosodd anafiadau yr Heddlu ac nid yw'r lleoliad hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer camera cyflymder sefydlog.

Mae GoSafe yn cynnal ymgyrchoedd gorfodi cyflymdra rheolaidd i orfodi cyfyngiadau cyflymdra 20mya y tu allan i ysgolion. Rydym wedi cysylltu â GoSafe yn gofyn iddynt gynnwys Ysgol Gynradd Parc Ninian yn eu hymgyrch gorfodi nesaf. Gellir cael mwy o wybodaeth am GoSafe ar eu gwefan yn [www.GoSafe.org.uk](http://www.GoSafe.org.uk)

### Problem 4 - Cais am batrol lolipop

*Gofynnodd disgyblion o Ysgol Gynradd Parc Ninian i batrol lolipop gael ei ddarparu ar un neu fwy o'r croesfannau.*

#### Ymateb

Mae'r cais hwn wedi'i asesu gan y tîm addysg diogelwch ar y ffyrdd ac nid yw'r lleoliad hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Swyddog Croesi Ysgol.

Bydd y project hwn yn helpu i greu amgylchedd priffyrdd diogelach, mae'r cyfyngiad cyflymdra wedi'i leihau i 20mya yn ddiweddar a bydd y cynllun yn gwneud gwelliannau i'r cyfleusterau cerddwyr, ac yn cyflwyno mesurau arafu traffig ychwanegol, arwyddion gwell a chroesfan sebra newydd ar Virgil Street.

Cynigir hyfforddiant addysg Diogelwch ar y Ffyrdd i ddisgyblion i sicrhau eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r croesfannau sebra mewn modd diogel.

### Problem 5 - Gwella arwyneb y ffordd a'r palmant


*Cododd disgyblion Ysgol Gynradd Parc Ninian bryderon am gyflwr y ffordd a'r palmant y tu allan i'r ysgol.*

#### Ymateb

Bydd y droedffordd y tu allan i fynedfa'r ysgol ar Virgil Street yn cael ei lledaenu a'i hailarwynebu fel rhan o'r cynllun hwn, bydd hyn yn creu llwybr llawer ehangach i ddisgyblion a rhieni ei ddefnyddio. Bydd y groesfan sebra bresennol fer mynedfa'r ysgol ar Sloper Road hefyd yn cael ei huwchraddio a'i lledaenu.

Nid ydym yn gallu defnyddio'r cyllid grant a ddyfarnwyd ar gyfer y cynllun hwn ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyffredinol, rydym wedi anfon y pryder ymlaen at dîm Rheoli Asedau'r Cyngor i'w adolygu.

**Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnis rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a wellir, a fydd yn destun proses Gorchymyn Rheoli Traffig. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/](http://www.caerdydd.gov.uk/) Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.**



**Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown, subject to a Traffic Regulation Order process. Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link.**